Prosiect Cydgasglu Galw'r Sector Cyhoeddus am Fand Eang yng Nghymru

www.psba.org.uk

psba

Trosolwg diogelwch

gallugogi cyflenwi gwasanaethau

Sicrhau Gwybodaeth (SG) – Wedi'i Gynllunio ar gyfer y Rhwydwaith CBESC

Mae'r sector cyhoeddus o dan bwysau cynyddol i drin gwybodaeth, yn enwedig gwybodaeth bersonol, yn fwy diogel. Mae mwy o ffocws ar y niwed sy'n cael ei achosi i ddinasyddion a busnesau, ac i enw da'r sefydliad, pan fydd gwybodaeth yn cael ei cholli neu ei chamddefnyddio.

"Byddai'r swyddfa hon yn dewis negesu dibynnol trwy rwydweithiau diogel yn hytrach na defnyddio offer storio cyfryngau symudadwy er mwyn rhannu gwybodaeth."

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Wrth Wraidd Sicrhau Gwybodaeth

Mae'r rhwydwaith CBESC yn cynnig medrau diogelwch heb eu hail, ac mae Sicrhau Gwybodaeth wedi cael ei ymgorffori o'r cychwyn.

Mae cyflenwr y rhwydwaith CBESC, Logicalis UK, yn cyflogi sefydliad annibynnol sy'n arbenigo mewn cydymffurfiad SG ac ardystio systemau TGCh y sector cyhoeddus.

Mae'r tîm hwn o ymgynghorwyr CLAS (Cynllun Cynghorwyr Rhestredig CESG) yn cynghori Logicalis ac yn sicrhau bod y rhwydwaith CBESC yn bodloni'r safonau presennol ar gyfer SG.

Caiff CESG, y Grŵp Diogelwch Electronig Cyfathrebu, ei gydnabod fel y prif awdurdod cenedlaethol yn y DU ar SG. Mae'n cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar statws SG y rhwydwaith CBESC, ac yn sicrhau bod cynllun, ffurf a gweithrediad y rhwydwaith yn cydymffurfio â pholisi a safonau SG sy'n newid yn aml, fel y'u hamlinellir gan y CSIA (Noddwr Canolog Sicrhau Gwybodaeth Swyddfa'r Cabinet).

Cyfrinachedd, Uniondeb ac Argaeledd

Mae pensaernïaeth dechnegol y rhwydwaith wedi ei chynllunio a'i gweithredu i greu rhwydweithiau rhithwir ar wahân ar isadeiledd a rennir. Caiff pob rhwydwaith rhithwir ei greu i gwrdd ag anghenion diogelwch y gymuned sy'n ei ddefnyddio, sy'n mynnu gwahanu rhai swyddogaethau ond cysylltedd rheoledig â'r rhyngrwyd a gwasanaethau eraill er mwyn caniatáu ar gyfer darparu gwasanaethau a rhyngweithredu. Mae priodweddau diogelwch pob amgylchedd yn cael eu cynllunio i gwrdd â'r gwahanol faterion y mae defnyddwyr olaf yn eu hwynebu, trwy ddefnyddio'r mesurau a ddiffinnir yn y broses achredu.

Mae a wnelo SG â mwy na diogelwch corfforol yn unig, sef diogelu offer y rhwydwaith CBESC rhag ymosodiad. Ar gyfer y rhwydwaith CBESC, mae'n ymwneud â'r ffordd y caiff yr Ased Gwybodaeth (data cwsmeriaid) ei ddiogelu wrth iddo gael ei gludo ar draws y rhwydwaith. Felly, a chan ddilyn canllawiau CESG, caiff yr Ased Gwybodaeth ei gludo heb fod unrhyw un yn ei wylio, tarfu arno na'i addasu, ac mae ar gael bob amser. >

10410

LOGICALIS
Cyflenwr y Rhwydwaith PSBA
The PSBA Network Supplier

Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru
Working in partnership with Welsh Assembly Government

Prosiect Cydgasglu Galw'r Sector Cyhoeddus am Fand Eang yng Nghymru

www.psba.org.uk

psba

Trosolwg diogelwch

galluogi cyflenwi gwasanaethau

Mae'r SG sy'n cael ei ddefnyddio gan y rhwydwaith CBESC yn cwmpasu pobl, polisïau a gweithdrefnau ynghyd â lleoliadau a'r dechnoleg ei hun. Mae fframwaith SG y rhwydwaith CBESC yn ystyried yr holl agweddau hyn, ac mae'n defnyddio ystod gynhwysfawr o fesurau SG a diogelwch, wedi eu gweithredu gan ddull a gymeradwywyd yn llawn gan CESG.

Gweithgareddau a Chyflawniadau SG

Adeiladwyd y rhwydwaith CBESC er mwyn iddo allu cael ei achredu gan berchnogion asedau gwybodaeth ar gyfer cludo Asedau Gwybodaeth hyd at y lefel GYFYNGEDIG (a ddiffinnir gan Gynllun Marcio Diogelwch HMG) a Lefel Effaith (IL) 3 CESG.

Er mwyn cynnig ateb diogel, mae portffolio presennol y mesurau SG yn cynnwys y canlynol:

- Mae holl weithwyr Logicalis ac isgontractwyr a'r tîm CBESC yn Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gweithio ar y prosiect yn cael caniatâd diogelwch i lefel BPSS (safon diogelwch personél sylfaen), sy'n caniatáu iddynt drin deunydd CYFYNGEDIG a lefel IL3.
- Caiff aelodau allweddol staff yr holl sefydliadau ganiatâd diogelwch at lefel Gwiriad Diogelwch, sy'n caniatáu iddynt drin deunydd CYFRINACHOL neu IL5.
- Caiff Logicalis, y staff, isgontractwyr, y gweithdrefnau a'r prosesau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau CBESC a'r rhwydwaith ei hun eu hardystio i ISO27001:2005, y safon a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth (mae hyn yn berthnasol i Logicalis UK A'R rhwydwaith yn eu cyfanrwydd).
- Caiff y rhwydwaith CBESC ei achredu gan CESG i gludo Asedau Gwybodaeth at lefel GYFYNGEDIG rhwng y 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau.
- Mae atebion ar gael i alluogi'r rhwydwaith CBESC i gludo deunydd wedi ei farcio'n ddiogel at lefel GYFRINACHOL neu IL4.

LOGICALIS
Cyflenwr y Rhwydwaith PSBA
The PSBA Network Supplier

Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru
Working in partnership with Welsh Assembly Government